

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
(STRYDOEDD AMRYWIOL, PENTRE'R EGLWYS)
GORCHYMYN (CYFYNGIADAU AROS) 2026

DATGANIAD O RESYMAU

Yn dilyn yr ymgynghoriadau blaenorol yn yr ardal, mae'r Cyngor wedi datblygu cynnig newydd sy'n ymwneud â chyflwyno cyfyngiadau dim aros ar unrhyw adeg (llinellau melyn dwbl) ar y cyffyrdd yn Heol Sant Illtyd a rhai o'i ffyrdd cyfagos ym Mhentre'r Eglwys. Mae'r cynigion wedi'u cyflwyno er mwyn:

- lleihau perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd arall, neu at ddibenion atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi.
- hwyluso hynt unrhyw fath o draffig (gan gynnwys cerddwyr) ar y ffordd ac unrhyw ffordd arall

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn helpu i sicrhau ei bod hi'n haws i gerbydau deithio a symud ar hyd y darnau o ffordd sydd wedi'u heffeithio trwy sicrhau nad oes unrhyw gerbydau'n parcio ar hyd y ffordd.

Bydd y gwelededd wrth y cyffyrdd perthnasol hefyd yn cynyddu o ganlyniad i'r cyfyngiadau dim aros ar unrhyw adeg arfaethedig. Byddai hyn felly yn rhoi mwy o amser i yrwyr ymateb i beryglon sy'n dod tuag atyn nhw, megis cerddwyr yn croesi'r ffordd a cherbydau sy'n dod tuag atyn nhw neu'n troi i mewn neu allan o'r cyffyrdd yma, gan leihau'r perygl o wrthdrawiad.

Byddai'r gwaharddiad dim aros ar unrhyw adeg hefyd yn berthnasol i'r darnau o lwybr troed sy'n rhedeg ar eu hyd, gan helpu i'w cadw'n glir o barcio gan gerbydau a allai fel arall rwystro'r llwybr troed. O ganlyniad i'r newidiadau yma, fyddai dim angen i'r rheiny sy'n cerdded ac sy'n defnyddio olwynion yn yr ardal deithio'n uniongyrchol ar y briffordd er mwyn osgoi'r cerbydau hynny; byddai hefyd yn rhoi llwybr mwy hwylus i gerddwyr a'r rheiny sy'n defnyddio olwynion.

Yn ogystal, drwy helpu i sicrhau bod lled llwybrau troed yn cael ei gynnal ar ffyrdd sydd wedi'u heffeithio, byddai'n haws i'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd ac i'r rhai â chadeiriau gwrthio deithio ar y llwybr troed, gan greu amgylchedd llwybr troed mwy hygyrch i bawb. At ei gilydd, felly, y gobaith yw y byddai'r cyfyngiadau hyn yn helpu i atal cerbydau rhag parcio'n llwyr neu'n rhannol ar y llwybr troed ledled ardal y cynnig.

Byddai'r cynnig hefyd yn sicrhau bod modd i fysiau sy'n teithio ar hyd Heol Sant Illtyd deithio a symud ar hyd cyffordd Heol yr Eglwys/Heol Sant Illtyd a chael mynediad i'r safleoedd bysiau presennol yn Heol Sant Illtyd, gyda llai o risg o gael eu rhwystro gan gerbydau wedi'u parcio.

RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL
(VARIOUS STREETS, CHURCH VILLAGE)
(WAITING RESTRICTIONS) ORDER 2026

STATEMENT OF REASONS

Following the previous consultations in the area, the Council has developed a new proposal relating to the introduction of prohibition of waiting at any time restrictions (double yellow lines) at junctions in St Illtyds Road and some of its adjoining roads in Church Village. The proposal has been put forwards in order to:

- reduce danger to persons or other traffic using the road or any other road or for preventing the likelihood of any such danger arising
- facilitate the passage on the road or any other road of any class of traffic (including pedestrians)

The proposed changes would help to ensure that vehicles are able to manoeuvre the affected lengths of road safely and with ease by keeping these lengths clear of parking, therefore facilitating passage.

The visibility at the affected junctions would also be increased as a result of the proposed prohibition of waiting at any time restrictions. This would then allow drivers more time to react to oncoming hazards such as pedestrians crossing the road and oncoming vehicles turning into or out of these junctions, therefore reducing risk of collision.

The prohibition of waiting at any time restrictions would also apply to the lengths of footway running alongside, helping to keep them clear of parking which may otherwise obstruct the footway. These changes would therefore reduce the need for those walking and wheeling in the area to travel directly in the highway to avoid said vehicles and better facilitates passage for pedestrians.

Additionally, by helping to ensure footway widths are maintained at the affected lengths it would become easier for those using wheelchairs or mobility aids and for those with pushchairs to travel on the footway, creating a more accessible footway environment for all. Overall, it is therefore hoped that these restrictions would help to discourage vehicles parking either fully or partially on the footway throughout the area of the proposal.

The proposal would also help to ensure that buses travelling in St Illtyds Road are able to manoeuvre the junction of Church Road/St Illtyds Road and access the existing bus stops in St Illtyds Road with a reduced risk of having their passage obstructed by parked vehicles.